**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (178)**
**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mercher, 18 Ionawr 2006**

**......................................**

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**......................................**

**Cynnig i sefydlu Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru - *Ni chyflwynwyd Cynnig***

**..........................**

**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1, 2, 4 + 6 a chwestiynau 8 + 9 eu grwpio.

**..........................**

**2.31pm**

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**............................**

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25: Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006 -** ***Ni chyflwynwyd Cynnig***

**............................**

**3.03pm**

*Cynnig i drafod y 2 eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân*

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006**

**NDM2766 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod trosglwyddo swyddogaethau Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru a'i ailgyfansoddi fel panel ymgynghorol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o CADW, yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, sy'n gweld treftadaeth Cymru yn cael ei hintegreiddio gyda sgiliau dysgu, datblygu economaidd ac adfywio cymunedau lleol ac yn galw felly ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud ymrwymiad i flaenoriaethu datblygiad strategaeth o'r fath a pharatoi Adroddiad Blynyddol ar Gyflwr yr Amgylchedd Hanesyddol gan gynnwys archwiliad o'r gwariant cyfredol a rhagolwg o anghenion y dyfodol.

Gwelliant 1
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 50
Gwrthodwyd Gwelliant 1

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn datgan y bydd llyncu Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ochr yn ochr â CADW yn gyfle i ffurfio strategaeth flaengar wedi ei hariannu'n briodol er mwyn hyrwyddo ein treftadaeth adeiledig, ddiwylliannol a hanesyddol cyfoethog. **W**

Gwelliant 2
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 50
Derbyniwyd Gwelliant 2

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd trosglwyddo swyddogaethau Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r mater o ehangu mynediad i adeiladau hanesyddol ar draws Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu strategaeth fynediad i sicrhau bod henebion Cadw ar gael i bawb yn y gymuned.

Gwelliant 3
O Blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
Derbyniwyd Gwelliant 3

**Y cynnig, wedi'i ddiwygio**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005.

Yn datgan y bydd llyncu Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ochr yn ochr â CADW yn gyfle i ffurfio strategaeth flaengar wedi ei hariannu'n briodol er mwyn hyrwyddo ein treftadaeth adeiledig, ddiwylliannol a hanesyddol cyfoethog.

Yn credu y bydd trosglwyddo swyddogaethau Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r mater o ehangu mynediad i adeiladau hanesyddol ar draws Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu strategaeth fynediad i sicrhau bod henebion Cadw ar gael i bawb yn y gymuned.

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 50
Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

## NDM2767 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2005 ynglyn â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn (Diddymu) Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005; a

b) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005.

Y cynnig
O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 50
Derbyniwyd y cynnig

..........................

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006**

**NDM2768 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Henebion Cymru a'i ailgyfansoddi fel panel ymgynghorol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o CADW, yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, sy'n gweld treftadaeth Cymru yn cael ei hintegreiddio gyda sgiliau dysgu, datblygu economaidd ac adfywio cymunedau lleol ac yn galw felly ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud ymrwymiad i flaenoriaethu datblygiad strategaeth o'r fath a pharatoi Adroddiad Blynyddol ar Gyflwr yr Amgylchedd Hanesyddol gan gynnwys archwiliad o'r gwariant cyfredol a rhagolwg o anghenion y dyfodol.

Gwelliant 1
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51
Gwrthodwyd Gwelliant 1

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn datgan y bydd llyncu Bwrdd Henebion Cymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ochr yn ochr â CADW yn gyfle i ffurfio strategaeth flaengar wedi ei hariannu'n briodol er mwyn hyrwyddo ein treftadaeth adeiledig, ddiwylliannol a hanesyddol cyfoethog. **W**

Gwelliant 2
O Blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
Derbyniwyd Gwelliant 2

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Henebion Cymru yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i’r afael â’r mater o ehangu mynediad i henebion ar draws Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu strategaeth fynediad i sicrhau bod henebion Cadw ar gael i bawb yn y gymuned.

Gwelliant 3
O Blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
Derbyniwyd Gwelliant 3

**Y cynnig, wedi’i ddiwygio**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005.

Yn datgan y bydd llyncu Bwrdd Henebion Cymru o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ochr yn ochr â CADW yn gyfle i ffurfio strategaeth flaengar wedi ei hariannu’n briodol er mwyn hyrwyddo ein treftadaeth adeiledig, ddiwylliannol a hanesyddol cyfoethog.

Yn credu y bydd trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Henebion Cymru yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i’r afael â’r mater o ehangu mynediad i henebion ar draws Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu strategaeth fynediad i sicrhau bod henebion Cadw ar gael i bawb yn y gymuned.

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 9; Cyfanswm 51
Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.

## NDM2769 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Rhagfyr 2005 ynglyn â’r gorchymyn drafft, Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 2005

Y cynnig
O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 50
Derbyniwyd y cynnig

...........................

**3.26pm**

Yn unol â Rheol Sefydlog 37.6 cytunodd y Llywydd i’r cynigion canlynol i atal y rheolau sefydlog gael eu cyflwyno heb rybudd

**NDM2781 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

1. Yn atal Rheol Sefydlog 6.13 a 6.14 er mwyn caniatáu i’r Cynnig heb Ddyddiad Trafod (NNDM2782), a gyflwynwyd ar 18 Ionawr 2006 - i sefydlu’r Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru – gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 18 Ionawr 2006.

Y Cynnig
O Blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
Derbyniwyd y Cynnig

**NDM2784 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 37.5, yn atal:

a) Rheol Sefydlog 6.13;

b) rhan o Reol Sefydlog 8.4 sy’n nodi "yn sgil ymgynghori yn y Pwyllgor Busnes â’r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad"

c) y rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r Datganiad Busnes wythnosol fod yn amserlen gytûn ar gyfer Busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos ganlynol;

er mwyn caniatáu i’r Cynnig heb Ddyddiad Trafod (NNDM2783) a gyflwynwyd yn gynharach heddiw i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma, ddydd Mercher 18 Ionawr 2006

Y cynnig
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
Derbyniwyd y cynnig

**NNDM2782 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.1:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol ar Fesur Llwyodraeth Cymru.

2. Teitl y Pwyllgor fydd y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru;

3. Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys un ar ddeg Aelod o’r Cynulliad, pump o’r Blaid Lafur, dau o Blaid Cymru, Plaid Geidwadol Cymru a Phlaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a’r Llywydd a fydd yn cadeirio’r Pwyllgor;

4. Y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru fydd:

a) Ystyried y cynigion a nodwyd yn y Mesur.

b) Ystyried unrhyw faterion eraill sy’n codi o’r Mesur a bennir gan y Pwyllgor.

5. Bydd y Pwyllgor yn adrodd ar ei argymhellion pan fo’n briodol, ac os bydd y Pwyllgor yn teimlo ei fod yn briodol, gall wneud hynny trwy gyflwyno cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 33.9. Bydd y Pwyllgor yn peidio â bod ar y dyddiad y caiff y Mesur Gydsyniad Brenhinol

**Asesiad o’r Gost a’r Buddiannau o sefydlu’r Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru**

**Cost y Pwyllgor**

Bydd y Pwyllgor yn cael ei wasanaethu o adnoddau cyfredol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

**Buddiannau’r Pwyllgor**

Sefydlu’r Pwyllgor ychwanegol, a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol, fyddai’r ffordd orau o ystyried y cynigion a amlinellwyd yn y Mesur a materion eraill sy’n codi o’r Mesur. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno’i argymhellion fel y bo’n briodol a bydd yn peidio â bod ar y dyddiad y caiff y Mesur Gydsyniad Brenhinol.

Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol.

Y cynnig
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
Derbyniwyd y cynnig

**NNDM2783 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 8.4, yn ethol yr aelodau canlynol i’r Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru:

Dafydd Elis-Thomas (Llywydd)

Jane Hutt (Llafur)

Leighton Andrews (Llafur)

Ann Jones (Llafur)

Val Lloyd (Llafur)

Gwenda Thomas (Llafur)

Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru)

Nick Bourne (Ceidwadwyr)

David Melding (Ceidwadwyr)

Mike German (Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol y Llywydd i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor.

Y cynnig
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
Derbyniwyd y cynnig

...........................

**3.30pm**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwartheg Hyn (Gwaredu) (Cymru) 2006 o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv)**

**NDM2770 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwartheg Hyn (Gwaredu) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2006.

*Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:*

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi na fydd y Cynllun yn rhwystro marchnad y DU ar gyfer eidion aeddfed rhag troi'n anghytbwys o ganlyniad i lif o gynnyrch ychwanegol pan gaeir y cynllun Dros Dri Deg Mis ar 22 Ionawr ac yn annog y Gweinidog i wneud popeth o fewn ei allu i roi pwysau ar yr UE i godi'r gwaharddiad ar allforio Cig Eidion Prydain.

Gwelliant 1
O Blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 52
Gwrthodwyd Gwelliant 1

Y cynnig
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
Derbyniwyd y cynnig

**NDM2771 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwartheg Hyn (Gwaredu) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2006.

*Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Y cynnig
O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
Derbyniwyd y cynnig

..........................

**3.50pm**

**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru**

**NDM2765 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Blynyddol 2004/05 Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Hydref 2005.

*Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:*

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r pwyslais ar ofal tymor hir yng ngoleuni nifer y cwynion a godwyd gyda'r ombwdsmon.

Gwelliant 1
O Blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 46
Gwrthodwyd Gwelliant 1

Y cynnig
O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
Derbyniwyd y cynnig

**..........................**

**4.26pm**

**Dadl fer Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Argyfwng mewn Therapi Lleferydd**

**.....................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.55pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**